

Tîm Cwricwlwm TGCh

# Cylchlythyr TGCh

## Sioe BETT/Rhifyn Arbennig NAACE

### BETT 2006 – Mwy a Gwell?

#### Cynnwys:

- BETT 2006: Mwy a Gwell?
- Cynhadledd NAACE 2006
- Gwobr Ysgolion BT
- Data Lluniau
- Adroddiadau Prosiect SA1
- Newyddion Bishop Gore
- Newyddion SLTS
- Prosiect SA1
- Adroddiad Byrddau Gwyn
- Newyddion Smart-board
- Llyfrgell Feddalwedd Ddiffiniol (Gwanwyn 2006)
- Rhif Llinell Gymorth: 01792 636900  
Desg Wasanaeth am ymholiadau technegol
- YGG Bryn Tawe: 01792 560649  
Tîm Cwricwlwm TGCh

BETT yw prif ddigwyddiad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu addysg ledled y byd, sy'n denu mwy na 600 o gyflenwyr addysgol a mwy na 28000 o ymwelwyr, gan ddod â chymuned ddysgu ac addysgu'r byd ynghyd am bedwar diwrnod o fentrau blaengar ac ysbrydoledig.

#### Meddalwedd Blynyddoedd Cynnar a Chynradd, Cynnwys ac Offer

Mae 2Create A Story yn galluogi plant i ysgrifennu'n annibynnol, darlunio ac adrodd eu storiâu eu hunain. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi dysgu annibynnol plant. Gellir ei ddefnyddio hefyd ochr yn ochr â bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer addysgu ysgol gyfan. Gellir defnyddio'r pecyn i greu storiâu ffuglen ac ysgrifennu ffeithiol, e.e. cynllunio'r camau mewn arbrawf wyddonol.

Cynlluniwyd 2Create A Story i ysgogi ac addysgu plant ifanc i greu storiâu amlgyfrwng effeithiol a chreadigol drwy'r dewisiadau canlynol: mewnforio darluniau, recordio sain i gydfynd â'r storiâu, cadw storiâu fel Flash, fel bod plant yn gallu rhannu eu gwaith ar-lein gyda pherthnasau a ffrindiau'n lleol ac yn fyd-eang.

#### Meddalwedd Uwchradd, Cynnwys ac Offer

Mae MediaStage yn caniatáu i ddysgwyr greu perfformiadau rhithiol ar gyfer Astudiaethau'r Cyfryngau, a chyfarwyddyd ynghylch ei ddefnyddio ar gyfer astudiaethau TGAU a chreu prosiectau gwaith cwrs. Mae'r cynnyrch yn stiwdio rhithiol sy'n galluogi myfyrwyr i fod yn gyfarwyddwyr, yn actorion, yn dechnegwyr goleuo, yn ddynion camera, yn rheolwyr llwyfan, yn

ysgrifenyddwyr sgrïptiau ac yn feirniaid.

#### Caledwedd Blynyddoedd Cynnar a Chynradd

Robot llawr y gellir ei raglennu yw Bee-Bot sy'n cynnwys rhaglennu, rhagfynegi, amcangyfrif a chofnodi.

Mae'n cefnogi addysgu nodau rheoli cynnar yn y Cyfnod Sylfaen a CA1. Mae Bee-Bot yn pontio'r bwlch rhwng cerbydau rheolaeth bell a'r robotiaid llawr mwy cymhleth, a hynny'n ei wneud yn hawdd i athrawon a phlant ei ddefnyddio. Daw'r robot llawr yma mewn maint sy'n hwylus i blant ac mae'n cynnwys botymau clir a llachar, ac o gynllun cryf. Ceir amrywiaeth o fatiau gweithgareddau ar gyfer gweithgareddau gwahanol.

#### Caledwedd Uwchradd

Mae Graphical Logger Pack yn cynnwys Cyfrifiadur Poded HP iPaq 2110 a Logiwr Flash EasySense. Cofnodwr data symudol yw hwn sy'n aildrydanadwy, gyda synhwyrddion amrywiol y gellir eu cysylltu. Mae'n caniatáu i ddisgyblion gasglu, arddangos a dadansoddi'r data drwy ddefnyddio meddalwedd Sensing Science, ysgrifennu adroddiadau drwy ddefnyddio Pocket Word a defnyddio Pockets Excel i ddadansoddi ymhellach.

**Y cynnyrch newydd mwyaf trawiadol** oedd y Sgrîn Gyffwrdd Plasma Eglurder Uwch 42". Mae Byrddau Gwyn Rhyngweithiol yn offer gwerthfawr ond mae llawer o anfanteision yn parhau, yn arbennig o gofio plant ag anghenion addysgol arbennig.

Mae technolegau arddangos, fel y'u gelwir, yn aml yn golygu defnyddio taflunydd. Er gwaethaf y manteision, mae anawsterau



*Mae BETT 2006 yn creu emosiynau cymysg. Mae disgleirdeb llachar y stondinau'n cyferbynnu â diflastod du llawer o'r bobl sydd wrthynt ynghylch y dyfodol. Ceir athrawon gwych sy'n derbyn gwobrau Becta sydd mor fedrus wrth ddefnyddio technoleg ar gyfer dysgu, o'u cymharu â'r rheiny â mwy o ddiddordeb mewn prynu caledwedd a meddalwedd. Yn BETT, mae'n ymddangos mai'r olaf sy'n ennill eu plwyf. TES*

mowntio/gosod ac yn sicr mae problemau iechyd a diogelwch wrth i blant ac athrawon sefyll yn llinell y pelydryn.

Mae'r sgrîn plasma yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cyfrifiadur a gellir ei hystyried fel monitor mawr. Mae'r haenen wydr dros flaen y sgrîn yn sensitif i gyffwrddiad a gall berfformio fel llygoden. Gellir gosod y sgrîn ar wal neu ei chyflenwi ar stand addasadwy trawiadol sy'n hwylus i bobl mewn cadair olwyn. Er yn ddud ar hyn o bryd, mae'r bwlch o ran pris o'i gymharu â thafalunydd, mowntio a bwrdd gwyn, yn lleihau drwy'r amser.

Rydym yn bwriadu gosod un o'r systemau newydd yma mewn dau ddsbarth arbennig a sefydlwyd ym mis Medi, gan obeithio y bydd hyn yn rhoi cyfle i bob un ohonom bwysa a mesur eu gwerth.

**Bernie Henderson**

## Cynhadledd NAACE 2006



Un o'r sesiynau yr aeth y tîm iddynt yn ystod cynhadledd Naace 2006 oedd cyflwyniad gan Mike Banahan o Open Forum Europe. Roedd y sgwrs yn disgrifio pa ddewisiadau sydd ar gael o ran meddalwedd ffynonellau agored i addysg gan gyflwyno'r ddadl ddeallusol dros ddefnyddio OSS. Ceir cadarnhad o lawer o arsylwadau a phrofiadau personol Mike mewn taflen wybodaeth gan Becta, y cyfeiriodd ef ati, o'r enw, 'Using open source software in schools', y gellir ei gweld ar y ddolen gyswllt isod.

[http://www.becta.org.uk/corporate/publications/documents/BEC5606\\_Information\\_Sheetrev.pdf](http://www.becta.org.uk/corporate/publications/documents/BEC5606_Information_Sheetrev.pdf)

Mae'r ddau'n awgrymu mai'r prif ysgogwr ar gyfer cyflwyno OSS oedd yr arbedion cost posib. Un o'r meysydd a nodwyd oedd defnyddio systemau gweithredu ffynonellau agored a rhwydweithiau cleientiaid tenau i ymestyn bywyd hen gyfrifiaduron. Soniodd Mike am arbedion o £60,000 a gafwyd mewn un ysgol o ganlyniad i fabwysiadu'r cleient tenau, arbedion a gadarnhawyd yn annibynnol. Yn ystod ei sgwrs, cyfeiriodd at y pecynnau meddalwedd ffynonellau agored amrywiol, ac rwyf wedi rhestru rhai ohonynt isod gyda disgrifiad a dolen gyswllt i'r wefan lle gellir eu lawrlwytho er mwyn i chi eu gwerthuso.

### AbiWord (<http://www.abisource.com>)

AbiWord—prosesydd geiriau annibynnol, ysgafn, sy'n gallu darllen ac ysgrifennu llawer o fformatau dogfennau, gan gynnwys MS-Word. Oherwydd ei fod yn fach, mae'n addas iawn ar gyfer ei ddefnyddio ar hen galedwedd, a bydd yn rhedeg yn rhwydd ar 486DX gyda RAM 16MB, ac ar yr un pryd yn caniatáu i chi olygu holl fformatau dogfennau heddiw. Mae'r prif nodweddion yn cynnwys allforio HTML, dadwneud ac ailwneud diderfyn, cefnogaeth gwirio sillafu, arddulliau, colofnau, tablau, delweddau, a rhestrau bwled/rhifedig. Mae'r Gwiriwr Sillafu ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd. Gall defnyddio'r meddalwedd hwn ar hen beiriannau gynyddu eu defnyddioldeb heb ychwanegu at gostau trwyddedu.

### PDFCreator ([http://sector7g.wurzel6.de/pdfcreator/index\\_en.htm](http://sector7g.wurzel6.de/pdfcreator/index_en.htm))

Gellir defnyddio PDFCreator i gynhyrchu dogfennau PDF yn uniongyrchol o unrhyw raglen Window. Unwaith y bydd wedi'i osod, dewiswch 'Print' o ddewislen File eich prosesydd geiriau neu raglen luniadu a dewis 'PDFCreator Printer' o'r rhestrau o argraffwyr. Cliciwch 'Save' a chofnodi enw ar gyfer eich ffeil PDF newydd. A dyna ni! Gallai hwn fod yn declyn meddalwedd defnyddiol iawn ar gyfer y cwrs DiDA newydd.

### OpenOffice 2 (<http://www.openoffice.org/>)

Mae OpenOffice 2 yn gyfres gynhyrchu gyflawn sy'n cynnwys prosesydd geiriau, taenlen, golygydd gwedudalen a rhaglen gyflwyno. Noweddion arbennig y fersiwn hon yw gallu allforio PDF cynhenid a Flash ar wasgiad botwm. I ddisgyblion heb Microsoft Office gartref, bydd Open Office yn caniatáu iddynt agor a golygu cymwysadau Office a'u cadw mewn fformat Microsoft addas.

### GIMP (<http://gimp-win.sourceforge.net/>)

Mae'r Rhaglen Trin Delweddau GNU (GIMP), yn ddatrysiad delweddu grymus a chynhwysfawr, sy'n addas i'r rheiny sy'n dymuno trin ffotograffau digidol, dylunio ac allforio graffeg ar gyfer y we, trosi o un fformat ffeil i un arall a hyd yn oed cynhyrchu cyfansoddiadau cydraniad uchel ar gyfer argraffu.

### NVU (<http://www.nvu.com>)

NVU (a yngenir 'en-view') yw ateb y byd ffynonellau agored i Dreamweaver Macromedia. Mae'n olygydd tudalennau cyflawn -yr hyn a welwch chi yw'r hyn a gewch chi', sy'n eich galluogi i greu gwedudalennau trawiadol heb ofod mynd ati am fisoedd i ddysgu html. Gellid defnyddio GIMP ac NVU i gyflwyno DiDA.

### Firefox (<http://www.mozilla.com/firefox/central/>)

Firefox – sef porwr y we ysgafn wedi'i seilio ar dechnoleg Mozilla. Mae'n eich galluogi i bori'n gyflymach, yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol. Mae'r prif nodweddion yn cynnwys: Blocio Brys i atal yr hysbysebion plagus rhag neidio i fyny. Mae Pori Tab yn caniatáu i chi weld sawl gwedudalen mewn un ffenestr. Dolennau cyswllt agored yn y cefndir yn barod i chi eu gweld pan fyddwch yn barod i'w darllen.

### Celestia (<http://www.shatters.net/celestia/>)

Dynwarediad o'r bydysawd cyfan yw Celestia, wedi'i seilio ar y wybodaeth seryddol gyfredol. Mae'n cynnwys darluniau gwych o blanedau, lleuadau a chyrff orbital eraill megis Mir a'r Orsaf Ofod Ryngwladol. Nid yw Celestia wedi'i gyfyngu i'n cysawd yr haul ni; gallwch ymweld â sêr eraill a hyd yn oed deithio y tu hwnt i'r alaeth!!

## Gwobrau Ysgolion BT



Mae'r Wobr hon ar gyfer ysgolion sy'n gallu dangos eu hymrwymiad i helpu pawb yn y DU i ddeall a mwynhau manteision sgiliau cyfathrebu rhyngpersonol gwell. (<http://www.bteducation.org/awards/> )

Enillodd pedair ysgol yn Abertawe wobrau 2005-2006, sef Ysgol Gynradd Casllwchwr, Ysgol Gynradd Penclawdd, Ysgol Gynradd St Thomas, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach.

Defnyddiodd Ysgol Gynradd Casllwchwr TGCh ar gyfer Siarad a Gwrando fel rhan o'u gwaith ar gyfer y wobr hon.

Bob tymor, mae'r plant yn paratoi ac yn cyflwyno cyflwyniad unigol (gan ddefnyddio Powerpoint, sioeau sleidiau etc). Tua diwedd y tymor diwethaf, fel rhan o'u hastudiaeth ar yr Ail Ryfel Byd, roedd pob plentyn wedi ymchwilio i'r ffrynt gartref fel is-bwnc gan baratoi cyflwyniad llafar deng munud ar y pwnc. Roedd y cyflwyniadau o safon uchel iawn. Yn ogystal ag annerch eu cyd ddisgyblion, datblygwyd eu sgiliau cyfathrebu ymhellach drwy deilwra'u cyflwyniadau ar gyfer disgyblion CA1, a gafodd gyflwyniad hefyd. Mae enghraifft i'w gweld ar y wefan.



Y tymor hwn, eu pwnc yw'r gofod. Penderfynwyd cysylltu sgiliau TG a siarad a gwrando gyda help grant CACC. Gweithiodd y plant mewn grwpiau o 3 i gynllunio, dylunio a chynhyrchu cartwnau animeiddio a oedd yn gysylltiedig â phwnc y gofod. Gan ddefnyddio'r wybodaeth am gryfderau pob plentyn, dewiswyd y grwpiau fel bod gan bob plentyn rôl arbennig i'w chyflawni. Roedd y canlyniadau'n syfrdanol! Cynhyrchwyd nid yn unig animeiddiadau anhygoel ond cafwyd hefyd ryngweithio rhwng plant, grwpiau a phlant llai calonogol iawn.



## Picture Data

PICTUREDATA

Ydych chi'n cofio 1st Find IT ? Mae fersiwn newydd sbon o'r meddalwedd hwn o'r enw Picture Data ar fin cael ei ryddhau gan JVSoft. Dangoswyd y prototeip cyntaf i Gy-dlynwyr TGCh Cynradd yn ystod un o'r diwrnodau cydlynwyr y llynedd. Cafwyd arddangosiad o'r prototeip terfynol yn sioe BETT ym mis Ionawr gyda dyddiad rhyddhau o gwmpas mis Ebrill. Mae'n ymddangos bod hyn yn cael ei wireddu.

Mae'r prototeip terfynol yn welliant sylweddol ar y fersiwn a welwyd yr haf diwethaf. Crëwyd rhywbwyneb mwy hwylus. Fel y 1st Find IT gwreiddiol, y nod yw datblygu'r cysyniad o drin gwybodaeth drwy ymagwedd topig a lluniau. Adolygwyd y meddalwedd yn llwyr gyda graffeg trawiadol a llawer o nodweddion newydd a fydd yn caniatáu disgyblion i:

Fewngofnodi a golygu gwybodaeth; gwneud ymchwiliadau syml ac uwch; plotio graffiau mewn sawl ffordd; ysgrifennu am bob cofnod drwy gyfrwng prosesydd geiriau syml.

Yn gyffredinol, mae'r meddalwedd yn amryddawn iawn gyda'r nodwedd olaf uchod yn ychwanegiad gwerthfawr. Mae'r meddalwedd yn cynnwys amrywiaeth o bynciau sy'n addas ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2. Mae CD Rom hefyd yn cael ei baratoi ar gyfer disgyblion AAA mewn ysgolion uwchradd.

Gallai Picture Data lenwi'r bwch presennol o ran pecynnau cronfeydd data. Bydd y pecyn yn cael ei lansio gyda'r pynciau canlynol ar dri CD ROM.

Disc 1: Storiâu Tylwyth Teg, Bydoedd Estron a Humpty Dumpty  
Disc 2: Bwyta'n Iach, Gwisgo Tedi a Little Miss Muffet.  
Disc 3: Adeiladwr Estron, Picnic y Tedi Bers a Mary Mary.

Mwy o fanylion am y meddalwedd ar gael yn JVSoft: <http://www.jvsoft.co.uk>



## Prosiect Amlgyfrwng Datblygiad SA1

Mae ysgol St Thomas wedi defnyddio'r prosiect i estyn ein plant sy'n ddawnus ym maes TG a Saesneg. Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar y newidiadau yng nghymuned yr ysgol, drwy gau ein hysgol a sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol St Thomas.

Mae'r plant wedi cofnodi ein hadeilad presennol mewn ffotograffau, gan esbonio pam mae angen adeilad newydd. Maent hefyd wedi cyfwrdd â chyn ddisgyblion, gan gael gwybodaeth ynghylch yr ysgol yn y gorffennol. Mae disgyblion wedi ymweld â safle'r ysgol newydd ac wedi tynnu lluniau wrth i'r adeilad ddatblygu.

Cafwyd ymweliadau â datblygiad glannau SA1 a chyfloedd i ddarganfod beth sy'n digwydd yno a'r gwasanaethau a fydd ar gael iddynt ar y trothwy fel petai. Maent hefyd wedi cyflwrdd â'u cynghorwr lleol a'r AC dros Ddwyrain Abertawe, gan ddarganfod beth yw eu barn a theimladau etholwyr yn yr ardal.

Glyn Tiltman (Ysgol Gynradd St. Thomas)

## SA1-derful Time!

Bu plant Ysgol Gynradd Pennard yn llawn cyffro wrth gymryd rhan ym Mhrosiect Amlgyfrwng Datblygiad SA1 Abertawe. Ar ôl penderfynu ar ddilyniant eu syniadau bwrdd stori, aeth y plant ati i archwilio delweddau llonydd a fideo, meddalwedd golygu fideo a chreu cyfansoddiadau cerddorol amlhaen. Disgrifiodd un plentyn eu rôl fel DJs digidol.'

Penderfynodd y plant rannu i grwpiau ymchwil yr hanesyddol, y presennol a'r dyfodol i ddod o hyd i wybodaeth am y newidiadau yn yr ardal, gan ymchwilio sut bydd llwyddiant Abertawe yn y gorffennol yn cael ei ymgorffori mewn cynlluniau yn y dyfodol. Ar ôl creu eu hani-meiddio Wallace a Gromit byr eu hunain a datblygu technegau cyfwrdd mewn dwy ysgol leol yn natblygiad SA1, dywedodd un plentyn, "Roeddwn i'n hoffi gwyllo'r modelau'n symud ar ôl i ni droi eu lluniau'n animeiddio."

Bu'r adnoddau a'r gefnogaeth gan y tîm TGCh o fudd mawr i'r ysgol, ac edrychwn ymlaen at fentrau y bydd y tîm TGCh yn eu cynnig i ni yn y dyfodol.

Ysgol Gynradd Pennard



Diolch i Logotron am eu cefnogaeth eleni ([www.logo.com](http://www.logo.com))

## Am fod yn Rhaglennydd?

Ddydd Gwener, 18 Tachwedd cafodd chwe disgybl Blwyddyn 10 gyfle i gael diwrnod i ffwrdd o'r ysgol i fynd i weithdy Technocamps Cyfrifiadureg Prifysgol Cymru Abertawe "Am fod yn rhaglennydd...?" dan arweiniad Mark Kiddell.

Treuliodd y disgyblion 6 awr yn dysgu sut i raglennu gyda Delphi, iaith raglennu tebyg i Pascal. Yn gyntaf buont yn ysgrifennu rhaglenni testun a fyddai'n gwneud pethau syml fel gofyn i rywun am ei enw a'i oed. Wrth i'r disgyblion Blwyddyn 10 fagu hyder, byddai'r rhaglenni'n gwneud symiau ac yn trin mewnbnw defnyddwyr. Yn raddol, disodlwyd y gorchmynion syml gan eu swyddogaethau eu hunain er mwyn gwneud y rhaglenni'n fwy effeithlon.

Ar ôl cinio, aeth y disgyblion o Ysgol Esgob Gore ymlaen i raglenni graffeg gyda rhan o Delphi sy'n debycach i VisualBasic. Wrth ddefnyddio'r rhaglen roeddent wedi gwneud i oleuadau traffig newid lliw yn ôl amseryddion. Yna, ychwanegwyd ceir a yrrai ar hyd y ffordd gan aros ar orchymyn y goleuadau traffig.



## Cyfoethogi TGCh Ysgol Esgob Gore

Gall disgyblion galluog a gweithgar yn Ysgol Esgob Gore fanteisio ar weithgareddau i wella eu gallu TGCh y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan y cwricwlwm arferol. Cynhaliwyd gweithgaredd o'r fath yn ddiweddar mewn cydweithrediad â TGCymru, o Brifysgol Cymru, Abertawe.

Cymerodd pedwar disgybl Iwcus Blwyddyn 8 Ysgol Esgob Gore ran mewn gweithdy TGCh o'r enw 'Cyfathrebu Heriol—Operation Mercury' a drefnwyd gan T.G. Cymru a Teamforce ym Mhrifysgol Abertawe 16 Tachwedd 2005.

Yn ystod y dydd, cafodd y disgyblion gyfle i ddefnyddio systemau llywio lloeren a defnyddio meddalwedd o'r enw Winmorph i newid delweddau lluniau a ddefnyddir mewn gwneud ffilmiau, sef darn o feddalwedd cymhleth.

Bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cwis hefyd yn ystod y dydd gan ddod yn 2il i ysgolion eraill yn Abertawe a Chastell—nedd Port Talbot, gan ennill eu grŵp blwyddyn gyda chyfle i ddefnyddio wal ddringo a ddefnyddir gan filwyr sy'n hyfforddi yn y Fyddin am ddiwrnod. Roeddent o fewn trwch blewyn i ennill 5 tocyn stadiwm i weld Dinas Abertawe neu'r Gweilch yn chwarae yn Stadiwm Liberty. Dim ots! Diwrnod arbennig iawn i bawb beth bynnag!

Ian Hughes (Ysgol Esgob Gore)

## Newyddion y Rhwydwaith Band Llydan

### Fideo-gynadledda

Cafodd SLTS gymorth Prifysgol Cymru Abertawe i ffurfwedu y Rhwydwaith Band Llydan Addysg ar gyfer fideo-gynadledda. Mae hyn wedi'i seilio ar y cynllun a roddwyd ar waith yn Rhwydwaith Fideo Cymru, sef y gorau o'i fath ar hyn o bryd.

System safonau yw hon sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Fideo-gynadleddau Janet (JVCS) sy'n hwyluso sefydlu cynadledda gyda gwasanaeth cadw lle ar-lein a monitro'r gynhadledd ar-lein. Mae'r system yn defnyddio'r system rifo E164 sy'n ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr profiadol wneud galwadau ad hoc i ddefnyddwyr hysbys.

Mae gofyn bod CODEC a phwynt rhwydwaith ar wahân yn yr ysgol i sicrhau ansawdd y cynadledda. Ar hyn o bryd rydym yn arbrofi â CODEC Polycom er mwyn penderfynu ar yr offer mwyaf cost effeithiol ar gyfer grŵp bach, grŵp canolig a dosbarth cyfan.

Os oes gan eich ysgol ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth ynghylch rhoi fideo-gynadledda ar waith, cysylltwch â'r ddesg wybodaeth ar 636900.

### Rhwydweithiau Diwifr

Mae rhwydweithio diwifr yn edrych yn anhygoel: rhad, ffurfwedu hawdd, cludadwy a dim gwifrau i faglu drostynt!!

Ond mae pryderon, yn arbennig o ran diogeledd. Os na fydd y ffurfwedu diogeledd diwifr wedi'i osod yn gywir, gall unrhyw gyfrifiadur â cherdyn diwifr sydd o fewn cyrraedd gysylltu â rhwydwaith yr ysgol. Gall problemau godi hefyd o rwydweithiau diwifr eraill o fewn cyrraedd ar yr un sianel a all achosi ymyrriant, neu broblemau eraill gyda signalau'n methu â mynd drwy waliau oherwydd inswleiddio ffoil neu ddefnyddiau eraill sy'n atal neu'n allwyo'r signal. Yn olaf, mae rhwydweithiau diwifr yn gweithio ar yr un donfedd â meicrodonnau felly os oes meicrodon yn y cyffiniau, gallai hynny rwystro'ch rhwydwaith rhag gweithio.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ystyried technoleg ddiwifr beth bynnag, cysylltwch â'r ddesg wybodaeth ar 01792 636900 ac mi drefnwn arolwg diwifr a'ch cynghori ar y ffordd ymlaen.



mwyr...

## Newyddion y Rhwydwaith Band Llydan (parhad)

### Cyrchu Gartref

Mae SLTS bellach yn gallu caniatáu cyrchu gartref i staff a disgyblion. System we ddiogel yw hon y gellir ei chychu drwy ddefnyddio porwr gwe megis Microsoft Internet Explorer, a phrotocol HTTPS. Dyma ychydig o bwyntiau i esbonio beth yw cyrchu gartref.



#### Beth yw Cyrchu Gartref:

- Gallu cyrchu o gartref a thros y rhyngwyd ffeiliau a dogfennau y gallwch eu cyrchu ac sydd wedi'u cadw ar system yr ysgol (am resymau technegol, ac eithrio SIMS), gan ddefnyddio porwr gwe (Internet Explorer). Lawrlwytho'r ffeiliau neu'r dogfennau perthnasol i'ch cyfrifiadur cartref er mwyn gweithio arnynt.
- Llwytho i fyny (dychwelyd) y ffeiliau neu'r dogfennau hyn i weinydd yr ysgol fel y gellir eu cyrchu yn yr ysgol fel arfer. Gwneir hyn yn y lle cyntaf drwy e-bost.
- Gallu cyrchu cyfrifon e-bost yr ysgol, gan ddefnyddio Outlook Web Access, os bydd angen.

#### NID yw Cyrchu Gartref:

- Yr un peth â mewngofnodi yn yr ysgol.
- Yr un cyflymder cyrchu ag yn yr ysgol.

#### Bydd angen y canlynol:

- Cyfrifiadur cartref â mynediad i'r rhyngwyd.
- Rhaid bod eich ysgol yn aelod o barth cyfeirlyfr byw addysg ac wedi'i chysylltu â'r rhwydwaith band llydan addysg (holl CLG yr ysgolion cynradd a Lefel 2 CLG ysgolion uwchradd).
- Yr un meddalwedd/rhaglenni, a'r un fersiynau, er mwyn gweithio ar y ffeiliau neu'r dogfennau, ag sydd gennych yn yr ysgol.
- Caniatâd yr ysgol.
- Trwydded Mynediad Cleientiaid Defnyddwyr Microsoft—CAL (CAL tua £18.22 y pen i ddefnyddwyr staff a £1.86 y pen i ddisgyblion). Cyfrifoldeb yr ysgol yw'r gost yma.



#### Problemau:

- Bydd cyflymder mynediad rhyngwyd y defnyddiwr gartref yn effeithio'n sylweddol ar berfformiad y gwasanaeth hwn. Bydd cyswllt deialu yn araf iawn wrth lawrlwytho a llwytho ffeiliau neu ddogfennau i fyny. Gallai ffeiliau mawr fod yn annerbyniol o araf. Os bydd cyswllt band llydan ar gael, bydd hynny'n llai o broblem.
- Mae diogeledde cyfrineiriau'n bwysig iawn gan mai hwn yw'r unig ffordd o atal mynediad heb ganiatâd i'ch ffeiliau neu ddogfennau.
- Argymhellir y dylai'r cyfrifiadur cartref gael Windows XP a bod system wrthfeirws gyfredol wedi'i gosod.
- Nid oes cefnogaeth ar gyfer y cyfrifiadur cartref na chefnogaeth rhwydwaith yn ystod penwythnosau nac wedi 5:00pm dydd Llun i ddydd Iau ac wedi 4:30pm dydd Gwener na chyn 8:30am dydd Llun i ddydd Gwener.
- Yn ôl y galw, hwyrach y bydd yn rhaid i ni gyflwyno hwyrsgloch (*curfew*) lle na fydd y system ar gael o 10:30pm tan 07:00am. Dyma'r adeg pan fyddwn yn gweithredu'r swyddogaeth wrth-gefn ar holl systemau'r ysgolion dros y rhwydwaith.

Is-adran Cefnogaeth Dechnegol SLTS



<http://www.learn-ict.org.uk/slts/>

## Adborth Prosiect y Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol

Dechreuodd Cam Un prosiect y Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol yn Ysgolion Cynradd Abertawe yn Nhymor yr Haf 2005, a daeth i ben yn ffurfiol yn Nhymor y Gwanwyn 2006. Cymerodd 21 o ysgolion ran yn y prosiect hwn. Cwblhaodd 156 o athrawon yr holiaduron a chyfweliad i 29 o athrawon. Cynhyrchodd y prosiect yr argymhellion canlynol:

- Anogir gosodiad sefydlog (DPs wedi'u gosod ar y nenfwd a BGRh ar y waliau).
- Dylid sicrhau bod uchder y bwrdd yn addas ar gyfer y defnyddwyr.
- Defnyddio adnoddau ar-lein yn fwy.
- Cadw gwaith BGRh er mwyn dychwelyd ato.
- Pwysleisio pwysigrwydd materion iechyd a diogelwch i'r holl ddefnyddwyr (cyfeirio at y sylwadau).
- Datblygu'r rhyngweithio disgyblion, athrawon, bwrdd gwyn ymhellach.
- Darparu cyfleoedd i CCD fynd i hyfforddiant BGRh.
- Datblygu 'sleidiau dysgu' i'w harddangos ar y BGRh yn ystod cyfnodau trosglwyddo.
- Ystyried gosod seinyddion ar y wal i wella'r profiad amlgyfrwng.
- Ymchwilio i bosibilrwydd o ddefnyddio cefndiroedd lliw gwahanol i gy-northwyo'r dysgu.
- Sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd ar gael i staff.
- Ystyried gosod BGRh mewn ystafelloedd AAA.
- Ystyried safle / hyfforddiant BGRh i ddefnyddwyr llaw chwith.
- Datblygu protocol cynnal a chadw ymarferol ar gyfer DPs (yn arbennig bylbiau / hidlyddion).
- Ystyried gosod bleindiau ffenestri mewn ystafelloedd BGRh.
- Datblygu strategaeth i sicrhau bod athrawon yn cael mynediad cyfartal i BGRh.



Mae testun llawn ar gael yn:

<http://www.learn-ict.org.uk/materials/materials.asp#Whiteboards>

Lindsay Harvey (Tîm Cwricwlwm TGCh)

## Y Diweddaraŵ am y Byrddau Call!

I'r rheiny sy'n defnyddio'r byrddau gwyn rhyngweithiol CALL, yn sioe BETT cafwyd lansio meddalwedd a fydd ar gael tua adeg y Pasg. Er bod y meddalwedd CALL wedi'i ddiweddaru'n barhaus, bydd y fersiwn 9.5 diweddaraŵ yn cynnig gwelliannau sylweddol i ysgolion. Gellir cysylltu tudalennau â'i gilydd mewn ffeil Notebook i gynhyrchu arddagnosiad "canghennog". Gellir cloi gwrthrychau ar y dudalen mewn tair ffordd. Gellir eu cloi yn eu lle, eu cloi fel y gellir eu symud ond nid eu golygu, neu eu cloi fel y gellir eu cylchdroi a'u symud ond nid eu golygu. Gall athrawon amlinellu a chipio unrhyw siâp neu ran o'r sgrîn gyda theclyn cipio'r sgrîn.



Mae'r Oriol newydd o adnoddau'n cynnwys miloedd o wrthrychau, gan gynnwys 500 o ddelweddau newydd, awdio, fideo a Flash a meddalwedd gweithgareddau gwersi Notebook. Bellach mae gan yr Oriol gyfleuster i ddod o hyd i gynnwys drwy ddefnyddio cyfleuster chwilio gair allweddol neu bori drwy strwythur y ffeil cynnwys newydd.

Gellir trefnu a storio bron pob math o gynnwys, gan gynnwys delweddau, sain, fideo, Flash a ffeiliau Notebook, yn yr Oriol. Mae'r meddalwedd hefyd yn caniatáu cynnwys ffeiliau fideo a sain ar dudalennau Notebook a gellir cylchroi neu ailfeintio'r rhain, ysgrifennu drostynt a'u storio yn yr oriel.

Newyddion gwell hyd yn oed – bydd y fersiwn diweddaraŵ yn rhad ac ddim ac ar gael i'w lawrlwytho o [www.smarttech.com/support/software](http://www.smarttech.com/support/software).

## Llyfrgell Feddalwedd Ddiffiniol (Gwanwyn 2006)

### Rhestr Feddalwedd Ddiffiniol (Cynradd/Uwchradd/Arbennig)

Textease Studio + / CT (Softease)	Revelation Sight and Sound (Logotron)	Maths Packs 1 – 4 (Interactive Resources)	Primary Maths Games (Interactive Resources)
Splosh (Kudlian)	My Modelling Toolkit (Granada)	Zoombinis (3 Versions) (Broderbund)	Virtual Experiments (Collins)
Dazzle 1, 2 & 3 (Indigo)	Izzy's Island (Sherston)	Crystal Rainforest (Sherston)	Web Detectives (Sherston)
Black Cat Compose (Granada)	2Create (2Simple)	2Create a Story (2Simple)	Teaching Maths Series (Interactive Resources)
Finale Notepad (Am ddim) (Finale Music)	Little Brown Bear Series (Sherston)	Dreamweaver (Adobe)	Fireworks (Adobe)
Print Music (Finale Music)	Teacher's Cupboard (Sherston)	Flash (Adobe)	FreeHand (Adobe)
Junior Insight (Logotron)	Number Train (Sherston)	Report Assist (Simple Logic)	Kiddesk (Riverdeep)
Cloze Pro (CrickSoft)	Clicker 4 & 5 (CrickSoft)	Wordshark (Inclusive Technology)	Numbershark (Inclusive Technology)
Tizzy's First Tools (Softease)	Teddy Bear's Picnic (Sherston)	Granny's Garden (4Mation)	Oxford Reading Tree (Oxford)
Millie's Maths House (EdMark / Riverdeep)	Meddalwedd Microscope QX3 (Intel)	Meddalwedd Digital Blue (Intel)	My World (Inclusive Technology)
Number Plane (Sherston)	Badger Trails (Sherston)	Map Detectives (Sherston)	Xipster (Xow/Advisory Matters)
E-mail Detectives (Sherston)	Meddalwedd Abacus Maths (GINN)	Illuminatus Creator 5.5 (Digital Workshop)	Teithio'r Byd (Dorling Kindersley)
StarSpell (RM)	IEP Writer (Learn How Publications)	Smart Notebook / Smart Ideas (SMART)	Paint Shop Pro 10 (Corel)
ACTIVprimary 2 & ACTIVstudio 2 (Promethean)	Revelation Sight and Sound (Logotron)	2Animate (2Simple)	Speedy Keys (Granada)
Jigworks (CrickSoft)	IT Mouse Skills (Inclusive Technology)	2Type (2Simple)	



### Meddalwedd Hanfodol

Chwaraewr Flash	Chwaraewr Shockwave	Chwaraewr Quicktime	Darllenydd Acrobat
Media Player 10	Photo Story 3	Chwaraewr Java	Movie Maker 2
DirectX 9	Real Player	Audacity	Irfan View
SWIFF Player	SWIFF Point Player	Porwr Maxthon	MS Office (Microsoft)
MS FrontPage (Microsoft)	MS Publisher (Microsoft)	Google Earth (Google)	